



## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

|                       |                                                           |
|-----------------------|-----------------------------------------------------------|
| Teitl / Darn o waith: | Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) |
| Adran:                | Polisi Tai                                                |
| Dyddiad:              | Ionawr 2017                                               |



### Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Datblygwyd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) i ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol er mwyn sicrhau y bydd ar gael i bobl y mae ei hangen arnynt ac na allant gael llety, boed drwy brynu cartref na thrwy ei rentu oddi wrth landlord preifat.

Bu'r *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael*, a gyflwynwyd y naill gan Ddeddf Tai 1985 a'r llall gan Ddeddf Tai 1996, yn nodwedd ar dai cymdeithasol ers tua 30 mlynedd. Gwnaethant ddeillio o bolisi'r Llywodraeth i gynyddu lefelau perchentyaeth, ymhlith pethau eraill. Yn ddarostyngedig i amodau ac eithriadau penodol, mae'r *Hawl i Brynu* yn rhoi hawl i denantiaid tai cymdeithasol brynu rhydd-ddeiliadaeth a lesddeiliadaeth eu cartref

Rhwng 1 Ebrill 1981 a 31 Mawrth 2016, gwerthwyd 136,000 o gartrefi Awdurdodau Lleol a 3,100 o gartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i denantiaid o dan ddeddfwriaeth *Hawl i Brynu* a *Hawl i Gaffael*. Mae hyn yn cyfateb i 45% o'r stoc tai cymdeithasol yn 1981. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan gyrhaeddodd nifer y gwerthiannau ei huchafbwynt yn 2003-04, collwyd bron i 7,000 o gartrefi cymdeithasol o'r stoc tai cymdeithasol mewn un

flwyddyn.

Yn fwy diweddar, oherwydd ffactorau economaidd a ffactorau eraill megis rheolau llymach i gael benthyciad ar gyfer morgais, bu gostyngiad yn nifer y cartrefi cymdeithasol a werthwyd. Yn ystod y cyfnod pum mlynedd mwyaf diweddar y mae data ar gael ar ei gyfer (Mawrth 2012-Mawrth 2016) collwyd 248 o gartrefi bob blwyddyn, ar gyfartaledd, o'r stoc tai rhent cymdeithasol. Yn 2013-14 bu cynnydd yn nifer y cartrefi a werthwyd o dan ddeddfwriaeth *Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael* am y tro cyntaf ers 2003-04 gyda 253 o gartrefi yn cael eu prynu, o gymharu â 170 yn 2012-13. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau gyda 286 o gartrefi yn cael eu gwerthu yn 2014-15 a 359 yn 2015-16.

Cymerodd Llywodraeth flaenorol Cymru a phartneriaid gamau i gynyddu'r stoc tai cymdeithasol. Rhwng 2011-12 a 2015-16 adeiladwyd cyfanswm o 11,508 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru. Mae hyn 15% yn uwch na'r targed a bennwyd ar gyfer y tymor diwethaf, sef 10,000. Mae gan y Llywodraeth bresennol darged i adeiladu 20,000 yn fwy o gartrefi fforddiadwy y tymor hwn. At hynny, sicrhawyd bod 10,498 o gartrefi gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto dros dymor y Llywodraeth flaenorol yn erbyn targed o 5,000.

Gan gydnabod effaith yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael a'r pwysau parhaus ar dai cymdeithasol, yn 2011 cyflwynwyd Mesur Tai (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn yn galluogi Awdurdod Lleol i wneud cais i Lywodraeth Cymru i atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn ei ardal. Hyd yma, mae tri Awdurdod Lleol – sef Sir Gaerfyrddin, Abertawe ac Ynys Môn – wedi gwneud cais llwyddiannus i roi'r gorau i'r Hawl i Brynu.

Nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd yn ei phapur ymgynghori "Dyfodol yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael – Papur Gwyn ar gyfer tai cymdeithasol" a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2015 ac a ddaeth i ben ar 16 Ebrill 2015. Ceir canlyniadau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru.

<https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation-documents/150603-right-to-buy-consultation-summary-of-responses-cy.pdf>

Cafwyd 94 o ymatebion i'r Ymgynghoriad gyda'r mwyafrif o ymatebwyr yn nodi eu bod o blaid datblygu deddfwriaeth i ddiddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael. Cefnogwyd y cynnig gan 63 y cant o'r 83 o ymatebwyr a fynegodd farn glir ar ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd i ddiddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael.

Yn ogystal ag ymgynghoriad ffurfiol y Papur Gwyn, cynhaliwyd pedwar sesiwn trafod rhwng mis Medi 2015 a mis Chwefror 2016. Cynlluniwyd ein gweithdy yn benodol i gasglu barn pobl ifanc. Roedd y digwyddiad yn cynnwys 12 o bobl ifanc (rhwng 16 a 25 oed) ac fe'i trefnwyd gyda chymorth Plant yng Nghymru. Roedd pob un o'r cyfranogwyr o blaid diogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer pobl na allant fforddio prynu na rhentu'n breifat. Roeddent o'r farn y dylid defnyddio'r buddsoddiad yn y stoc tai cymdeithasol i ddarparu tai parhaol i'w rhentu yn hytrach nag i'w prynu am bris gostyngol gan unigolion.

Gall byw mewn tai o ansawdd gwael niweidio iechyd a lles plant a phobl ifanc. Yn benodol, mae ansawdd ffisegol y cartref yn allweddol i gyfleoedd bywyd plentyn a bydd yn effeithio ar ei allu i astudio a ffynnu. Drwy atal y gostyngiad yn nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael a achosir drwy werthu eiddo Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai i denantiaid, bydd yn ein galluogi i ddarparu stoc ddigonol o dai a fydd yn chwarae rôl bwysig o ran atal digartrefedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol na allant gael gafael ar dai yn y marchnadoedd tai preifat. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu teuluoedd a phlant sy'n agored i niwed.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Mae tai cymdeithasol yn rhan hanfodol o'r farchnad dai. Mae'r rhenti isel yn helpu pobl, gan gynnwys teuluoedd â phlant, i sicrhau cartref fforddiadwy. Mae hyn yn bwysig pan na all pobl fanteisio ar y marchnadoedd tai i brynu neu rentu cartref.

Drwy ddiddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yng Nghymru, caiff tai cymdeithasol eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd diddymu'r hawliau hyn hefyd yn rhoi cymhelliant i landlordiaid cymdeithasol, yn enwedig Awdurdodau Lleol, i adeiladu tai cymdeithasol newydd, gan wybod na chânt eu gwerthu o dan yr Hawl i Brynu na'r Hawl i Gaffael ar ôl cyfnod byr o amser.

Drwy fynd i'r afael â'r cyflenwad o dai cymdeithasol fel hyn sicrhewr y bydd eiddo ar gael i'r rhai mewn angen, gan gynnwys teuluoedd sydd ar restrau aros ar hyn o bryd. Mae'r cytundebau tenantiaeth ddiogel neu sicr yn golygu bod diogelwch tenantiaeth, fel arfer am oes yn amodol ar denantiaeth dda, a chydabyddir bod cael llety sefydlog yn hybu iechyd a datblygiad addysgol plentyn.

Dengys data o Gyfrifiad 2011 fod canran y teuluoedd rhieni unigol mewn tai rhent cymdeithasol tua 23% tra bod nifer gyfartalog y teuluoedd rhieni unigol ar draws pob deiliadaeth tua 11%. Mae diogelu tai rhent cymdeithasol yn debygol o fod o fudd i deuluoedd a phlant. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn ystyried bod tai cymdeithasol yn gwneud cyfraniad mawr at y gwaith o fynd i'r afael â thlodi gan fod targedu tai cymdeithasol at y rhai sydd â'r angen mwyaf yn un o'r polisiâu cymdeithasol mwyaf ailddosbarthol sydd, felly, yn helpu'r rhai â'r angen mwyaf.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Erthygl 24 - Mae cymryd camau i ddatblygu a chynnal tai cymdeithasol yn un o'r ffyrdd allweddol y gellir defnyddio polisi tai i fynd i'r afael â thlodi. Mae'r manteision yn ymestyn i oedolion a phlant sy'n fwy tebygol o gael amgylchedd glân a dŵr glân.

Erthygl 27 – Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio hyn.

Mae'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol wedi'i thargedu i helpu'r rhai â'r angen mwyaf ac mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i lywio eu polisiâu dyrannu sy'n destun Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Os caiff ei dderbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y cynnig yn diogelu'r stoc tai cymdeithasol rhag cael ei lleihau ymhellach. Drwy ddarparu llety o ansawdd da, yn y sector rhentu cymdeithasol, sicrhewr amgylchedd diogel a chynnes i blant. Mae hyn yn ffafriol i hyrwyddo iechyd da i blant, eu lles a'u cyrhaeddiad addysgol.

Mae erthyglau eraill hefyd yn berthnasol e.e. 3, 6, 9, 18, 20.

Mae tai a gweithgarwch adfywio yn chwarae rôl hanfodol o ran helpu pobl ifanc a theuluoedd incwm isel i gyflawni gwell canlyniadau. Gall byw mewn tai o ansawdd gwael niweidio iechyd a lles plant a phobl ifanc, gyda'r effeithiau yn parhau pan fyddant yn oedolion. Yn benodol, mae ansawdd ffisegol y cartref yn allweddol i gyfleoedd bywyd plant a bydd yn effeithio ar eu gallu i astudio a ffynnu. Os gallwn wella'r cyflenwad o dai fforddiadwy a'u hansawdd, yn ogystal â helpu i atal digartrefedd, byddwn yn gwneud cyfraniad pwysig at leihau anghydraddoldebau ym meysydd iechyd ac addysg.

Mae teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro a'r rhai sy'n ddigartref yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau cymorth pwysig. Gall digartrefedd hefyd gael effaith negyddol sylweddol ar y plant yn y cartrefi hyn, gan effeithio ar eu datblygiad a'u cyrhaeddiad addysgol. At hynny, mae cael cartref sefydlog a diogel yn bwysig i rieni. Hebdo, maent yn llai tebygol o sicrhau cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd cyflogaeth hirdymor, sydd yn ei dro yn effeithio ar eu hincwm. Felly, maent yn wynebu mwy o risg o fyw mewn tlodi.

#### **Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog**

Mae'r cynnig hwn yn fwy tebygol o gynorthwyo plant ac, yn benodol, y rhai mewn teuluoedd sydd angen tai fwyaf ac sy'n dioddef tlodi.

Nododd Sefydliad Joseph Rowntree fod diogelu tai cymdeithasol yn un o'r ffyrdd gorau y gellir defnyddio polisi tai i fynd i'r afael â thlodi, gan gyfeirio at dai cymdeithasol fel un o elfennau mwyaf aiddosbarthol y wladwriaeth les.

Nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd yn ei phapur ymgynghori "Dyfodol yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael – Papur Gwyn ar gyfer tai cymdeithasol" a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2015 ac a ddaeth i ben ar 16 Ebrill 2015. Ceir canlyniadau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a hyrwyddo ymwybyddiaeth ohono. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi helpu i roi cyfleoedd i'r cyn-Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ac, felly, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc i gael safon byw ddigonol.

#### **Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share**

Cedwir yr Asesiad o'r Effaith ar Blant ar system rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru (iShare).

### Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Dylid ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth ac o bryd i'w gilydd wrth i'r broses o'i roi ar waith ddechrau o 2018 ymlaen.

Y dogfennau polisi a fydd yn ategu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant yw:

- <http://gov.wales/consultations/housing-and-regeneration/future-of-right-to-buy/?lang=en>
- <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/righttobuyacquire/?skip=1&lang=cy>

#### Cyllidebau

**O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?**

Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau eu gwneud i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

**Nac oes**

**Rhowch unrhyw fanylion:**

#### Monitro ac Adolygu

**A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?**

**Oes**

**Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu**

**I'w benderfynu maes o law**

**Gweler y dudalen nesaf  
am Restr Gryno o  
erthyglau'r CCUHP**





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

[www.ccuhpwgnewdpethauniawn.co.uk](http://www.ccuhpwgnewdpethauniawn.co.uk)

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'r brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:  
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:  
[www.ccuhpwgnewdpethauniawn.co.uk](http://www.ccuhpwgnewdpethauniawn.co.uk)

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol Bobl Ifanc:  
[www.diconline.co.uk/cym/newyddion](http://www.diconline.co.uk/cym/newyddion)

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:  
<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>

### Erthygl 1

Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

### Erthygl 2

Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

### Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

### Erthygl 4

Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

### Erthygl 5

Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

### Erthygl 6

Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

### Erthygl 7

Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

### Erthygl 8

Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

### Erthygl 9

Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

### Erthygl 10

Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

### Erthygl 11

Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

### Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

### Erthygl 13

Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidio iddyn nhw ac i eraill.

### Erthygl 14

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

### Erthygl 15

Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

### Erthygl 16

Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

### Erthygl 17

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

### Erthygl 18

Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

### Erthygl 19

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hól.

### Erthygl 20

Rhaid i bob sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

### Erthygl 21

Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

### Erthygl 22

Dylai plant sy'n dod i wlad fel fforduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

### Erthygl 23

Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

### Erthygl 24

Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bywyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 25

Dylai sefydlfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

### Erthygl 26

Dylai'r Llywodraeth roi rwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

### Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hangenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant ffordio darparu hyn.

### Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 29

Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

### Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafirf y bobl neu beidio.

### Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

### Erthygl 32

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

### Erthygl 33

Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

### Erthygl 34

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywol.

### Erthygl 35

Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

### Erthygl 36

Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

### Erthygl 37

Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

### Erthygl 38

Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

### Erthygl 39

Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig adfer eu hunan-barch.

### Erthygl 40

Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

### Erthygl 41

Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

### Erthygl 42

Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.

## Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

|                                                       |                                                                  |
|-------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|
| <b>Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno):</b> | <b>Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)</b> |
| <b>Adran:</b>                                         | <b>AGC – Polisi Tai</b>                                          |
| <b>Dyddiad:</b>                                       | <b>Ionawr 2017</b>                                               |

### 1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad

**Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau a bennwyd (yn cynnwys pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd yn mesur llwyddiant, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

Datblygwyd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) i ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol er mwyn sicrhau y bydd ar gael i bobl y mae ei hangen arnynt ac na allant gael llety, boed drwy brynu cartref na thrwy ei rentu oddi wrth landlord preifat.

Bu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael, a gyflwynwyd y naill gan Ddeddf Tai 1985 a'r llall gan Ddeddf Tai 1996, yn nodwedd ar dai cymdeithasol ers tua 30 mlynedd. Gwnaethant ddeillio o bolisi'r Llywodraeth i gynyddu lefelau perchentyaeth, ymhlith pethau eraill. Yn ddarostyngedig i amodau ac eithriadau penodol, mae'r Hawl i Brynu yn rhoi hawl i denantiaid tai cymdeithasol brynu rhydd-ddeiliadaeth a lesddeiliadaeth eu cartref

Rhwng 1 Ebrill 1981 a 31 Mawrth 2016, gwerthwyd 136,000 o gartrefi Awdurdodau Lleol a 3,100 o gartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i denantiaid o dan ddeddfwriaeth Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael. Mae hyn yn cyfateb i 45% o'r stoc tai

cymdeithasol yn 1981. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan gyrhaeddodd nifer y gwerthiannau ei huchafbwynt yn 2003-04, collwyd bron i 7,000 o gartrefi cymdeithasol o'r stoc tai cymdeithasol mewn un flwyddyn.

Yn fwy diweddar, oherwydd ffactorau economaidd a ffactorau eraill megis rheolau llymach i gael benthyciad ar gyfer morgais, bu gostyngiad yn nifer y cartrefi cymdeithasol a werthwyd. Yn ystod y cyfnod pum mlynedd mwyaf diweddar y mae data ar gael ar ei gyfer (Mawrth 2012-Mawrth 2016) collwyd 248 o gartrefi bob blwyddyn, ar gyfartaledd, o'r stoc tai rhent cymdeithasol. Yn 2013-14 bu cynnydd yn nifer y cartrefi a werthwyd o dan ddeddfwriaeth Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael am y tro cyntaf ers 2003-04 gyda 253 o gartrefi yn cael eu prynu, o gymharu â 170 yn 2012-13. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau gyda 286 o gartrefi yn cael eu gwerthu yn 2014-15 a 359 yn 2015-16.

Cymerodd Llywodraeth flaenorol Cymru a phartneriaid gamau i gynyddu'r stoc tai cymdeithasol. Rhwng 2011-12 a 2015-16 adeiladwyd cyfanswm o 11,508 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru. Mae hyn 15% yn uwch na'r targed a bennwyd ar gyfer y tymor diwethaf, sef 10,000. Mae gan y Llywodraeth bresennol darged i adeiladu 20,000 yn fwy o gartrefi fforddiadwy y tymor hwn. At hynny, sicrhawyd bod 10,498 o gartrefi gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto dros dymor y Llywodraeth flaenorol yn erbyn targed o 5,000.

Gan gydnabod effaith yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael a'r pwysau parhaus ar dai cymdeithasol, yn 2011 cyflwynwyd Mesur Tai (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn yn galluogi Awdurdod Lleol i wneud cais i Lywodraeth Cymru i atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn ei ardal. Hyd yma, mae tri Awdurdod Lleol – sef Sir Gaerfyrddin, Abertawe ac Ynys Môn – wedi gwneud cais llwyddiannus i roi'r gorau i'r Hawl i Brynu.

Wrth ddrafftio'r Bil, ystyriwyd dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd y ddeddfwriaeth, os caiff ei phasio, yn diogelu tai cymdeithasol. Felly, disgwylir iddo fod o fudd i ferched a chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Dengys Cyfrifiad 2011 mai menyw yw pen y teulu mewn 54% o gartrefi, sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar draws pob deiliadaeth (41%). Yn y sector rhentu cymdeithasol, mae cyfran y pennau teuluoedd sy'n dod o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar draws pob deiliadaeth, sef 4% o gymharu â 3%.

Rhoddwyd sylw dyledus i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal a bod angen dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu. Nid ystyrir bod unrhyw oblygiadau negyddol i bobl â nodweddion gwarchodedig. O gofio'r rôl y mae tai cymdeithasol yn ei chwarae mewn cymdeithas ac o ran helpu pobl sy'n agored i



niwed a'r rhai na allant, am sawl rheswm, fanteisio ar farchnadoedd tai, ystyrir bod y cynigion yn gadarnhaol o ran cydraddoldeb.

**2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi.**

**Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

Nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd yn ei phapur ymgynghori "Dyfodol yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael – Papur Gwyn ar gyfer Tai Cymdeithasol" a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2015 ac a ddaeth i ben ar 16 Ebrill 2015.

Ceir canlyniad yr ymgynghoriad yn yr adroddiad yma:

<https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation-documents/150603-right-to-buy-consultation-summary-of-responses-cy.pdf>

Yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol drwy'r Papur Gwyn, cynhaliwyd pedwar sesiwn trafod rhwng mis Medi 2015 a mis Chwefror 2016 gyda rhanddeiliaid er mwyn cael eu barn fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Bil drafft.

Bwriadwyd i'r sesiynau gasglu barn rhanddeiliaid fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Bil drafft gyda chynrychiolwyr yn cael eu gwahodd i wneud sylwadau ar gynnwys arfaethedig y Bil a materion a oedd yn ymwneud â'r broses o'i roi ar waith os caiff ei gyflwyno gan y Llywodraeth newydd yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Ymhlith y cyfranogwyr roedd Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sefydliadau o'r Trydydd Sector yn ogystal â chynrychiolwyr sefydliadau sy'n cynrychioli tenantiaid, grwpiau lleiafrifol a phobl ifanc. Ymhlith y rhanddeiliaid roedd Tai Pawb, sy'n sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ym maes tai.

**3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?**

Ar 31 Mawrth 2013, amcangyfrifir bod 1.4 miliwn o gartrefi yng Nghymru, yr oedd tua 223,000 ohonynt yn dai cymdeithasol (16 y cant). Mae tai cymdeithasol yn un elfen o dai "fforddiadwy" ac mae'r term yn disgrifio tai a gaiff eu rhentu ar lefelau a bennir gan ystyried canllawiau a meincnodau cenedlaethol. Fe'u darperir gan

#### Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai.

Ers 2000-01, mae cyfanswm nifer y cartrefi yng Nghymru wedi cynyddu 9 y cant. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod, mae nifer y cartrefi rhent cymdeithasol wedi gostwng 8 y cant. Ni all rhai pobl fforddio cartref o'r farchnad dai, boed drwy ei rentu o'r sector preifat neu drwy brynu eu cartref eu hunain. Maent yn dibynnu ar dai cymdeithasol neu ryw fath o ddarpariaeth gymorthdaledig.

Mae nifer y gwerthiannau tai cymdeithasol yng Nghymru wedi gostwng ers cyrraedd ei uchafbwynt yn y 1980au. Rhwng 1 Ebrill 1981 a 31 Mawrth 2016, gwerthwyd tua 136,000 o gartrefi Awdurdodau Lleol a 3,100 o gartrefi Cymdeithasau Tai i denantiaid o dan gynlluniau Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael. Mae hyn yn cyfateb i 45% o'r stoc tai cymdeithasol yn 1981. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan welwyd y nifer uchaf erioed o werthiannau yn 2003-04, collwyd bron i 7,000 o gartrefi cymdeithasol o'r stoc tai cymdeithasol mewn un flwyddyn. Ar 31 Mawrth 2015, roedd anheddau'r sector cymdeithasol yn cyfrif am 16 y cant o'r holl anheddau o gymharu â 19 y cant yn 2000-01.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, oherwydd ffactorau economaidd a ffactorau eraill megis rheolau llymach i gael benthygiad ar gyfer morgais, mae nifer y gwerthiannau wedi gostwng. Yn y cyfnod pum mlynedd mwyaf diweddar y mae data ar gael ar ei gyfer (Mawrth 2012 – Mawrth 2016), ar gyfartaledd mae 248 o gartrefi wedi'u colli bob blwyddyn o'r stoc tai rhent cymdeithasol. Yn 2013-14, cynyddodd nifer y gwerthiannau o dan yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael am y tro cyntaf ers 2003-04 gyda 253 o gartrefi yn cael eu prynu, o gymharu â 170 yn 2012-13. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau gyda 286 o werthiannau statudol o dan yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn 2014-15 a 359 yn 2015-16.

Noder: Dylid darllen yr asesiad hwn ar y cyd â'r asesiad a wnaed o'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn erbyn nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

***Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd a welsoch a allai wella neu hyrwyddo cydraddoldeb.***

### **Effaith**

**Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler y canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth).**

**Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â symud ymlaen i gynnal Asesiad. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau a welsoch yn y dystiolaeth. Dywedwch a yw'n fwriad gennych lenwi'r bylchau hyn ac os felly, sut?**

**4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?**

| Oed                                                        | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?                                                                                                                                                                                                                             |
|------------------------------------------------------------|------------|----------|--------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pobl iau<br><br><i>(Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed)</i> | ✓          |          |              | Gall byw mewn tai o ansawdd gwael niweidio iechyd a lles plant a phobl ifanc. Yn benodol, mae ansawdd ffisegol y cartref yn allweddol i gyfleoedd bywyd plentyn a bydd yn effeithio ar ei allu i astudio a ffynnu. Mae diogelu tai cymdeithasol yn chwarae rôl bwysig o ran helpu i atal digartrefedd ar gyfer |

Working for

**Equality**

in Wales

|                       |  |  |   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-----------------------|--|--|---|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                       |  |  |   | <p>cenedlaethau'r dyfodol na allant gael tai yn y marchnadoedd tai preifat. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu teuluoedd a phlant sy'n agored i niwed a phlant sy'n dibynnu ar dai cymdeithasol.</p>                                                                                                                                                                                                                            |
| <p>Pobl 18-50 oed</p> |  |  | √ | <p>Mae'r polisi yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl rhwng 18 a 50 oed os ydynt ar incwm isel, yn economaidd anweithgar, yn ddi-waith/heb waith, a/neu na allant weithio oherwydd salwch.</p> <p>Gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael effaith gadarnhaol gan fod tai cymdeithasol yn darparu deiliadaeth ddiogel i'r bobl hynny na allant, am sawl rheswm, fanteisio ar farchnadoedd tai'r sector preifat.</p> |
| <p>Pobl hŷn (50+)</p> |  |  | √ | <p>Ar gyfer pobl hŷn sydd ar incymau isel, yn economaidd anweithgar a/neu na allant weithio oherwydd salwch gallai'r polisi gael effaith gadarnhaol gan fod tai cymdeithasol yn darparu deiliadaeth ddiogel i'r bobl hynny na allant, am sawl rheswm, fanteisio ar farchnadoedd tai'r</p>                                                                                                                                 |



Working for  
**Equality**  
in Wales



|  |  |  |  |                 |
|--|--|--|--|-----------------|
|  |  |  |  | sector preifat. |
|--|--|--|--|-----------------|



## 4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

| Nam               | Cadarnhaol | Negyddol | Dim /<br>Dibwys | Rhesymau dros<br>eich penderfyniad<br>(yn cynnwys<br>tystiolaeth) / Sut<br>y gallai effeithio?                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|-------------------|------------|----------|-----------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Nam ar y<br>golwg |            |          | √               | <p>Ar gyfer pobl anabl sy'n arbennig o agored i niwed fel plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ar incwm isel, pobl sy'n economaidd anweithgar, pobl ddi-waith/heb waith a phobl na allant weithio oherwydd salwch, gallai'r polisi gael effaith gadarnhaol gan fod tai cymdeithasol yn darparu deiliadaeth ddiogel i'r bobl hynny na allant, am sawl rheswm, fanteisio ar farchnadoedd tai'r sector preifat.</p> <p>Gall diogelu'r stoc tai cymdeithasol, a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n cynnig llety o safon uchel, ddod â manteision iechyd corfforol a meddyliol.</p> |
| Nam ar y<br>clyw  |            |          | √               | Fel uchod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |

Working for

# Equality

in Wales

|                       |   |  |   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|-----------------------|---|--|---|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Anabledd corfforol    |   |  | √ | Fel uchod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| Anabledd dysgu        |   |  | √ | Fel uchod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| Problem iechyd meddwl | √ |  |   | <p>Mae cymorth effeithiol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl yn helpu i sicrhau eu hannibyniaeth a'u cynhwysiant cymdeithasol. Felly, mae sefyllfa sefydlog o ran cartref neu lety unigolyn yn bwysig oherwydd, fel arall, gallai achosi, neu waethygu, allgáu cymdeithasol ac ymddygiad peryglus. Gall problemau iechyd meddwl a salwch meddwl achosi problemau difrifol, y gall rhai ohonynt arwain at golli cartref neu lety.</p> <p>Gall diogelu'r stoc tai cymdeithasol, a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n cynnig llety o safon uchel, ddod â manteision iechyd corfforol a meddyliol.</p> |
| Namau eraill          |   |  | √ | Ni chaiff y polisi unrhyw effaith negyddol ar bobl sydd â phroblemau sy'n gysylltiedig â namau eraill. Ar gyfer pobl agored i niwed sydd â                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |



Working for  
**Equality**  
in Wales



|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>namau eraill, gallai'r polisi gael effaith gadarnhaol gan fod tai cymdeithasol yn darparu deiliadaeth ddiogel i'r bobl hynny na allant, am sawl rheswm, fanteisio ar farchnadoedd tai'r sector preifat.</p> |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

### 4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?

| Rhyw  | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|-------|------------|----------|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwryw |            |          | √            | Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn niwtral o ran rhyw. Dengys data o Gyfrifiad 2011 fod canran y teuluoedd rhieni unigol mewn tai rhent cymdeithasol tua 23% tra bod nifer gyfartalog y teuluoedd rhieni unigol ar draws pob deiliadaeth tua 11%. Mae diogelu tai rhent cymdeithasol yn debygol o fod o fudd i deuluoedd un rhiant (gwryw neu fenyw) a phlant.                                                |
| Benyw |            |          | √            | Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn niwtral o ran rhyw ond mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar ferched. Dengys data o Gyfrifiad 2011 fod canran y teuluoedd rhieni unigol mewn tai rhent cymdeithasol tua 23% tra bod nifer gyfartalog y teuluoedd rhieni unigol ar draws pob deiliadaeth tua 11%. Mae diogelu tai rhent cymdeithasol yn debygol o fod o fudd i deuluoedd un rhiant (gwryw neu fenyw) a |



Working for  
**Equality**  
in Wales



|  |  |  |  |        |
|--|--|--|--|--------|
|  |  |  |  | plant. |
|--|--|--|--|--------|

#### 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?                                                                |
|-------------|------------|----------|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|             |            |          | √            | Mae'r polisi yn niwtral o ran trawsrywedd ond disgwylir iddo gael effaith gadarnhaol ar bobl a all fod yn agored i niwed, a hynny am sawl rheswm. |

#### 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|-------------------------------|------------|----------|--------------|------------------------------------------------------------------------------------|
| Priodas                       |            |          | √            | Mae'r polisi yn niwtral o ran statws priodasol.                                    |
| Partneriaeth Sifil            |            |          | √            | Mae'r polisi yn niwtral o ran pobl mewn partneriaethau sifil.                      |

#### 4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?



| Beichiogrwydd a Mamolaeth       | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?                                                                                                                            |
|---------------------------------|------------|----------|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Beichiogrwydd                   |            |          | √            | Mae'r polisi yn niwtral o ran merched bechiog. Fodd bynnag, mae rhai merched bechiog sy'n agored i niwed yn debygol o gael budd o'r polisi i ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol.                                |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | √          |          |              | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar rieni â phlant bach. Mae tai cymdeithasol yn darparu cartref fforddiadwy i lawer o bobl, a all ddod â manteision cadarnhaol sylweddol i gartrefi â phlant. |

## 4.7 Oherwydd eu hil?

| Hil                         | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|-----------------------------|------------|----------|--------------|------------------------------------------------------------------------------------|
| Pobl o leiafrif ethnig e.e. |            |          | √            | Mae'r polisi yn niwtral o ran hil. Mae tai                                         |

|                                               |  |  |   |                                                                                    |
|-----------------------------------------------|--|--|---|------------------------------------------------------------------------------------|
| Asiaidd, Du)                                  |  |  |   | cymdeithasol yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cymdeithas    |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) |  |  | √ | Mae'r polisi yn niwtral o ran tarddiad cenedlaethol.                               |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid                 |  |  | √ | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar geiswyr lloches na ffoaduriaid. |
| Sipsiwn a Theithwyr                           |  |  | √ | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar Sipsiwn a Theithwyr.            |
| Mudwyr                                        |  |  | √ | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar fudwyr.                         |
| Eraill                                        |  |  | √ | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau eraill.                 |

#### 4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred      | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---------------------------------------|------------|----------|--------------|------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys |            |          | √            | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau crefyddol gwahanol.     |

|                                                                                                        |  |  |   |                                                                  |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|---|------------------------------------------------------------------|
| Mwslimiaid,<br>Iddewon,<br>Cristnogion,<br>Sikhiaid,<br>Bwdhyddion,<br>Hindŵiaid<br>Eraill<br>(nodwch) |  |  |   |                                                                  |
| Cred e.e.<br>Dyneiddwyr                                                                                |  |  | √ | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddyneiddwyr.  |
| Diffyg cred                                                                                            |  |  | √ | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar anghredinwyr. |

#### 4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|----------------------|------------|----------|--------------|------------------------------------------------------------------------------------|
| Dynion hoyw          |            |          | √            | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddynion hoyw.                   |
| Lesbiaid             |            |          | √            | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar lesbiaid.                       |
| Pobl ddeurywiol      |            |          | √            | Nid yw'r polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl ddeurywiol.                |

**4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Canllawiau ar ddod o hyd i wybodaeth bellach am Hawliau Dynol.**

| Hawliau Dynol                                                                     | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?                                                    |
|-----------------------------------------------------------------------------------|------------|----------|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig |            |          | √            | Caiff unrhyw effaith y gallai'r polisi ei chael ar hawliau dynol pobl ei lliniaru gan y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. |

Mae'r broses o ddiddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig, o bosibl, yn dwyn i rym y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol er mwyn rhoi mwy o amser i denantiaid arfer eu hawliau os ydynt yn dymuno gwneud hynny, cynigir cyfnod o flwyddyn er mwyn rhoi mwy o amser i denantiaid geisio cyngor ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Cyhoeddwyd y bwriad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth yn y Papur Gwyn (2015) ac fe'i cynhwyswyd ym manifesto'r Llywodraeth. Roedd hefyd wedi'i gyhoeddi ym musnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn erthyglau yn y wasg a'r cyfryngau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cyfnod ychwanegol hwn o amser yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hawliau'r tenant a budd y cyhoedd wrth ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu gan bobl ar incymau canolig y mae angen llety fforddiadwy arnynt. Os caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae darpariaethau i sicrhau y rhoddir gwybodaeth lawn i denantiaid am y broses o ddiddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau cysylltiedig a'i heffaith.

***Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau (ac eithrio rhai mân), cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig, llenwch Ran 2.***

***Os na cheir unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol, neu os ceir rhai dibwys yn unig, ewch yn syth i Ran 2 a llofnodwch yr Asesiad.***

Monitro, gwerthuso ac adolygu

**Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati).

Os caiff ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, câi effaith y ddeddfwriaeth ei monitro. Byddai hyn yn cynnwys y cyfnod rhwng deddfu'r Bil a'r adeg y daw i rym yn ogystal â blynyddoedd dilynol. Defnyddid amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys ystadegau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar nifer yr anheddau a'r gwerthiannau tai cymdeithasol a'r math o anheddau a gwerthiannau tai cymdeithasol.

Bydd canlyniadau pob asesiad o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Caiff yr asesiad hwn ac Asesiadau Effaith perthnasol eraill eu cyhoeddi ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno.

## Taflen Gofnodi Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

|                              |                                                           |
|------------------------------|-----------------------------------------------------------|
| <b>Teitl / Darn o waith:</b> | Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) |
| <b>Adran:</b>                | Polisi Tai                                                |
| <b>Dyddiad:</b>              | Ionawr 2017                                               |

### Teitl y rhaglen, polisi neu brosiect

#### Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Datblygwyd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) i ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol er mwyn sicrhau y bydd ar gael i bobl y mae ei hangen arnynt ac na allant gael llety, boed drwy brynu cartref na thrwy ei rentu oddi wrth landlord preifat.

### Disgrifiad (yn cynnwys themâu ac amcanion allweddol)

Datblygwyd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) i ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Os caiff ei dderbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd yn sicrhau bod tai cymdeithasol ar gael i bobl na allant ddiwallu eu hanghenion tai drwy brynu cartref na thrwy ei rentu oddi wrth landlord preifat.

Bu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael, a gyflwynwyd y naill gan Ddeddf Tai 1985 a'r llall gan Ddeddf Tai 1996, yn nodwedd ar dai cymdeithasol ers tua 30 mlynedd. Gwnaethant ddeillio o bolisi'r Llywodraeth i gynyddu lefelau perchentyaeth, ymhlith pethau eraill. Yn ddarostyngedig i amodau ac eithriadau penodol, mae'r Hawl i Brynu yn rhoi hawl i denantiaid tai cymdeithasol brynu rhydd-ddeiliadaeth a lesddeiliadaeth eu cartref

Rhwng 1 Ebrill 1981 a 31 Mawrth 2016, gwerthwyd 136,000 o gartrefi Awdurdodau Lleol a 3,100 o gartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i denantiaid o dan ddeddfwriaeth Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael. Mae hyn yn cyfateb i 45% o'r stoc tai cymdeithasol yn 1981. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan gyrhaeddodd nifer y gwerthiannau ei uchafbwynt yn 2003-04, collwyd bron i 7,000 o gartrefi cymdeithasol o'r stoc tai cymdeithasol mewn un flwyddyn.

Yn fwy diweddar, oherwydd ffactorau economaidd a ffactorau eraill megis rheolau llymach i gael benthygiad ar gyfer morgais, bu gostyngiad yn nifer y cartrefi cymdeithasol a werthwyd. Yn ystod y cyfnod pum mlynedd mwyaf diweddar y mae data ar gael ar ei gyfer (Mawrth 2012-Mawrth 2016) collwyd 248 o gartrefi bob

blwyddyn, ar gyfartaledd, o'r stoc tai rhent cymdeithasol. Yn 2013-14 bu cynnydd yn nifer y cartrefi a werthwyd o dan ddeddfwriaeth *Hawl i Brynu* a *Hawl i Gaffael* am y tro cyntaf ers 2003-04 gyda 253 o gartrefi yn cael eu prynu, o gymharu â 170 yn 2012-13. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau gyda 286 o gartrefi yn cael eu gwerthu yn 2014-15 a 359 yn 2015-16.

Cymerodd Llywodraeth flaenorol Cymru a phartneriaid gamau i gynyddu'r stoc tai cymdeithasol. Rhwng 2011-12 a 2015-16 adeiladwyd cyfanswm o 11,508 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru. Mae hyn 15% yn uwch na'r targed a bennwyd ar gyfer y tymor diwethaf, sef 10,000. Mae gan y Llywodraeth bresennol darged i adeiladu 20,000 yn fwy o gartrefi fforddiadwy y tymor hwn. At hynny, sicrhawyd bod 10,498 o gartrefi gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto dros dymor y Llywodraeth flaenorol yn erbyn targed o 5,000.

Gan gydnabod effaith yr *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael* a'r pwysau parhaus ar dai cymdeithasol, yn 2011 cyflwynwyd Mesur Tai (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn yn galluogi Awdurdod Lleol i wneud cais i Lywodraeth Cymru i atal yr *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael* yn ei ardal. Hyd yma, mae tri Awdurdod Lleol – sef Sir Gaerfyrddin, Abertawe ac Ynys Môn – wedi gwneud cais llwyddiannus i roi'r gorau i'r *Hawl i Brynu*.

Nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd yn ei phapur ymgynghori “Dyfodol yr *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael* – Papur Gwyn ar gyfer tai cymdeithasol” a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2015 ac a ddaeth i ben ar 16 Ebrill 2015. Cafwyd 94 o ymatebion i'r Ymgynghoriad gyda'r mwyafrif o ymatebwyr yn nodi eu bod o blaid datblygu deddfwriaeth i ddiddymu'r *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael*.

Ceir rhagor o fanylion am ganlyniad yr ymgynghoriad yn yr adroddiad yma:  
<https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation-documents/150603-right-to-buy-consultation-summary-of-responses-cy.pdf>

### **Natur y dystiolaeth a ystyriwyd /a ddefnyddir (yn cynnwys data sylfaenol, ymchwil dechnegol ac ansoddol, gwybodaeth arbenigol a chymunedol)**

Yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree mae nifer y bobl “mewn tlodi a achosir gan gostau tai” – sef y rhai nad ydynt yn dlawd cyn i gostau tai gael eu hystyried ac sy'n dlawd ar ôl i gostau tai gael eu hystyried - wedi cynyddu dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae rhenti isel, megis y rhai ar gyfer cartrefi cynghorau a chymdeithasau tai, yn gwneud cyfraniad pwysig at leihau “tlodi a achosir gan gostau tai” ac amddifadedd sylweddol ymhlith tenantiaid cymdeithasol. Gan fod tai cymdeithasol yn cael eu targedu i raddau helaeth at bobl ar incymau isel, daw'r Sefydliad i'r casgliad mai hon yw'r agwedd fwyaf “pleidiol i bobl dlawd” ac ailddosbarthol ar y wladwriaeth les gyfan. Felly, mae'n argymhell, os bwriedir defnyddio polisi tai i leihau tlodi, y dylid cynnal a datblygu tai cymdeithasol traddodiadol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer Cynllun Trwyddedu Asiantaethau a



Landlordiaid arfaethedig Cymru yn awgrymu bod iechyd hunangofnodedig oedolion sy'n rhentu llety preifat yn waeth nag ar gyfer deiliadaethau eraill. Mae eu hiechyd meddwl a'u lles meddyliol yn waeth ac maent yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau neu anableddau sy'n cyfyngu ar fywyd, o ysmegu a mynd at y deintydd neu'r optegydd yn llai aml nag oedolion mewn deiliadaethau eraill. Profodd oedolion a oedd yn rhentu llety preifat yn y grŵp oedran 45-64 y ffactorau iechyd gwaeth hyn ar gyfradd uwch na grwpiau oedran eraill.

Mae plant yn y sector rhentu preifat yn fwy tebygol o ddioddef problemau iechyd meddwl na phlant mewn sectorau eraill. Roedd cyfradd y peryglon sy'n peri risgiau iechyd a diogelwch i feddianwyr yn y sector rhentu preifat yn uwch nag mewn unrhyw sector arall pan gafodd ei mesur yn 2008, a chost unioni'r peryglon hyn oedd £2,500 fesul annedd, sy'n fwy nag mewn unrhyw sector deiliadaeth arall. Mae lefelau diffyg atgyweirio cyffredinol yn y sector rhentu preifat hefyd yn uwch ac yn fwy costus i'w hatgyweirio nag mewn sectorau eraill.

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/news.cfm?orgid=522&contentid=31525>

Gall nodweddion ffisegol tai hefyd effeithio ar iechyd meddwl wrth i deuluoedd geisio ymdopi â'r straen sy'n gysylltiedig â byw mewn amodau oer a llaith.

Mae salwch meddwl yn gyffredin, mae gan un o bob chwe oedolyn broblem neu gyflwr iechyd meddwl diagnosadwy ar unrhyw adeg benodol. Mae gofal a chymorth effeithiol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl yn helpu i sicrhau eu hannibyniaeth a'u cynhwysiant cymdeithasol. Mae sefyllfa sefydlog o ran cartref neu lety unigolyn yn bwysig oherwydd, fel arall, gallai achosi, neu waethygu, allgáu cymdeithasol ac ymddygiad peryglus. Gall problemau iechyd meddwl a salwch meddwl achosi problemau difrifol, y gall rhai ohonynt arwain at golli lle i fyw.

Mae problemau iechyd meddwl – o rai cymharol fach i rai difrifol – yn dod yn fwy cyffredin ymhlith y boblogaeth. Mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r cynnydd hwn a'r angen i helpu pobl fel y gellir atal problemau, os byddant yn codi, rhag mynd yn fwy cymhleth a mwy costus o ran triniaeth ac effaith. Mae tystiolaeth dda y gall tai o ansawdd gwael a phroblemau sy'n gysylltiedig â thai achosi problemau iechyd meddwl neu, ar gyfer rhai pobl, wneud problemau sy'n bodoli eisoes yn waeth.

Ymhlith yr astudiaethau o'r pwnc a gynhaliwyd, nododd adroddiad dilynol Swyddfa Archwilio Cymru (Tachwedd 2010) a adolygodd y ffordd roedd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yn cael ei roi ar waith, achosion o wasanaethau a chymorth yn cael eu darparu yn ychwanegol at hyn a oedd yn cael ei gwmpasu gan y Fframwaith ac a oedd yn cael ei ddarparu gan landlordiaid cymdeithasol. Ers ei gyhoeddi, mae cynnydd wedi'i wneud gyda chydweithio rhwng gwasanaethau tai, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig yn ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Chwm Taf. Comisiynwyd astudiaeth o Oedolion â Phroblemau Iechyd Meddwl gan Lywodraeth Cymru yn 2014 a nododd sawl enghraifft o arfer da o ran cydweithio rhwng gwasanaethau tai, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae tai cymdeithasol yn rhoi diogelwch deiliadaeth i denantiaid a gall diffyg diogelwch deiliadaeth gael effaith niweidiol ar iechyd. Mae plant mewn teuluoedd

sy'n gorfod symud yn aml yn wynebu risg benodol o gael canlyniadau gwael. Mae astudiaethau sy'n tynnu sylw at brofiad teuluoedd mewn llety dros dro yn nodi amrywiaeth o broblemau iechyd megis iselder, ecsema ac asthma. Ategodd astudiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2103, gan NatCen Social Research for Shelter, y rhagosodiad hwnnw wrth nodi bod 'tai gwael' yn fwy cyffredin yn y sector rhentu preifat. Mae'r rhai sy'n byw mewn tai gwael yn wynebu risg anghymesur o fwy o ddioddef iechyd cyffredinol gwaeth, lles meddyliol isel a phroblemau anadlu gan gynnwys asthma a diffyg anadl. Dylai cadw'r stoc tai cymdeithasol sicrhau llety o safon uchel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, drwy fesurau megis Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n golygu y bydd manteision iechyd corfforol a meddyliol, yn fwy sicr o gael eu cyflawni.

Prif nod y cynnig i ddod â pholisi Hawl i Brynu i ben yw diogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer y rhai na all eu hanghenion tai gael eu diwallu gan y farchnad dai fasnachol. Am y rheswm hwn mae'r cynnig yn debygol o fod o fudd i rai o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig sydd â chynrychiolaeth ormodol yn y sector tai cymdeithasol.

I grynhoi, mae diddymu'r *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael* yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd. Mae cartref fforddiadwy, diogel yn dod â manteision sylweddol i iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl, eu lles ac ansawdd eu bywyd yn fwy cyffredinol. Mae gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru, a wnaed yn 2015, yn amcangyfrif, mewn wyth awdurdod lleol, fod tua 12.5 y cant o eiddo a werthwyd o dan yr *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael* ers 1997 wedi'u trosglwyddo i'r sector rhentu preifat a bod y meddianwyr yn cael Budd-dal Tai dros y pum mlynedd gyntaf rhwng 2010-11 a 2014-15. Gall hyn osod costau ychwanegol ar aelwydydd o ran rhent o'u cymharu â phobl sydd mewn tai cymdeithasol ac, felly, bwysau ychwanegol ar incwm aelwydydd.

Cydnabyddir yn gyffredinol bod eiddo rhent preifat yn aml mewn cyflwr ffisegol gwaeth a bod ganddynt systemau gwresogi a mesurau arbed ynni llai effeithlon na thai cymdeithasol. Gall amodau tai gwael gael effaith negyddol ar ganlyniadau iechyd, yn arbennig ar gyfer plant.

## Grwpiau poblogaeth allweddol y mae'r rhaglen, y polisi neu'r prosiect yn effeithio arnynt

Gan ddefnyddio'r rhestr o **grwpiau agored i niwed a difreintiedig** (atodiad 1) sydd wedi'i chynnwys aseswch pa grwpiau ymhlith y boblogaeth gyffredinol y gallai'r cynnig effeithio arnynt

### Sgrinio

Gan ddefnyddio'r **Rhestr wirio penderfynyddion iechyd a lles** (atodiad 2) sydd wedi'i chynnwys ystyriwch:

- Sut (ym mha ffordd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)
- I ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach iawn)

Mae'n bosibl y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau hyn o fewn y boblogaeth a'r boblogaeth gyffredinol ei hun neu y bydd i'r cynnig oblygiadau ar eu cyfer – dylech ei grynhoi ar gyfer pob adran ar y daflen sgrinio isod.

Gellir rhestru unrhyw gyfleoedd a gollwyd i wella'r cynnig o dan y golofn gadarnhaol (+). Gellir rhestru unrhyw effeithiau andwyol a gollwyd ar iechyd a lles o dan y golofn negyddol (-). Os nad oes unrhyw effeithiau tebygol neu os ydynt yn rhai bach iawn ewch i'r adran nesaf.

Gofynnwch y cwestiwn: Sut mae'r cynnig yn effeithio ar y penderfynyddion hyn, er enghraifft, gweithgarwch corfforol neu ddeiet (o fewn yr adran sy'n ymdrin â Ffyrdd o Fyw) mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol? Neu ddim o gwbl?

Dim ond ar y cam hwn y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar ffyrdd o fyw. Ystyrir hyn wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei datblygu.

| Ffyrdd o Fyw                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                     | Grwpiau Agored i Niwed/dosbarthiad                                                                                                                                                                                                                   |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>(Cadarnhaol) +</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                        | <b>(Negyddol) –</b> |                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Mae'n debygol y bydd effeithiau cadarnhaol ar iechyd. Maent yn cynnwys y ffaith bod iechyd a diogelwch yn debygol o fod yn fwy cadarnhaol os caiff y stoc tai cymdeithasol ei chadw gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ac na chaiff ei throsglwyddo i'r sector rhentu preifat. Daeth gwaith ymchwil yn |                     | Plant a phobl ifanc<br>Pobl Hŷn<br>Pobl ar incwm isel<br>Economaid anweithgar<br>Di-waith/heb waith<br>Pobl na allant weithio oherwydd salwch<br><br>Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod 20% o drigolion mewn tai cymdeithasol yn nodi bod problemau iechyd |

| <p>yr Alban i'r casgliad y bydd tua un o bob tri eiddo a werthir fel eiddo Hawl i Brynu yn y sector rhentu preifat ar ôl 10 mlynedd. Cydnabyddir bod eiddo rhent preifat mewn cyflwr ffisegol gwaeth a bod ganddynt systemau gwresogi a mesurau arbed ynni llai effeithlon na thai cymdeithasol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                            | <p>hirdymor neu anabledd yn cyfyngu gryn dipyn ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cymharu ag 11% ar draws pob deiliadaeth.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                            | Grwpiau Agored i Niwed/dosbarthiad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <p><b>(Cadarnhaol) +</b></p> <p>Mae darparu cartrefi fforddiadwy, diogel yn ffactor allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi. Bydd nifer y cartrefi fforddiadwy newydd a ddarperir gan raglen y Llywodraeth hon yn fwy na nifer y cartrefi a gollir o dan yr <i>Hawl i Brynu</i> ond bydd y cynnydd net ychydig yn llai oherwydd gwerthiannau o dan yr <i>Hawl i Brynu</i>.</p> <p>Mae'r cynnig i ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol yn helpu pobl na allant gael cartrefi drwy'r farchnad dai (drwy eu prynu neu eu rhentu oddi wrth landlord preifat). Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n agored i niwed ac, felly, rai o aelodau mwyaf difreintiedig cymdeithas.</p> <p>Mae gan dai cymdeithasol rôl hanfodol i'w chwarae, nid yn unig o ran diwallu anghenion tai cyffredinol, ond hefyd anghenion pobl sy'n symud drwy leoliadau cymorth a gofal</p> | <p><b>(Negyddol) -</b></p> | <p>Plant a phobl ifanc<br/>Pobl Hŷn<br/>Pobl ar incwm isel<br/>Economaid anweithgar<br/>Di-waith/heb waith<br/>Pobl na allant weithio oherwydd salwch</p> <p>Roedd tua 28% o benaethiaid cartrefi mewn tai cymdeithasol yn 65 oed neu drosodd.</p> <p>Hefyd, roedd mwy o deuluoedd un rhiant mewn tai cymdeithasol. Dangosodd cyfrifiad 2011 fod 23% o aelwydydd mewn tai cymdeithasol yn rhieni unigol o gymharu ag 11% ar draws pob deiliadaeth.</p> |

| <p>sefydliadol. Mae angen manteision tai cymdeithasol yn fwy ar rai grwpiau nag ar eraill. Nid oes a wnelo â rhenti is yn unig ond hefyd y gallu i drefnu bod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud yn gyflym, cysylltu â chanolfannau gwasanaeth cwsmeriaid a chael cymorth os bydd ei angen arnynt a diogelwch deiliadaeth fel y gellir datblygu cymunedau cynaliadwy bywiog.</p> <p>O ganlyniad i'r <i>Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael</i>, yn aml mae'n rhaid i bobl ar restrau aros, aros yn hwy i eiddo fod ar gael a gall tenantiaid presennol sydd am symud i gartref sy'n fwy addas i ddiwallu eu hanghenion wynebu problemau am nad oes digon o gartrefi o'r math cywir ar gael. Gall y problemau fod yn waeth mewn ardaloedd gwledig lle y gall y cyflenwad cyfyngedig o eiddo olygu bod nifer yr anheddau sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol ac sydd ar gael i'w rhentu gan bobl leol ar incymau canolig yn gymharol fach.</p> |                            |                                                                                                                                            |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Amodau amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                            | <b>Grwpiau Agored i Niwed/dosbarthiad</b>                                                                                                  |
| <p><b>(Cadarnhaol) +</b></p> <p>Nododd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer Rhan 1 o'r Bil Tai (Cymru), a oedd yn ymwneud â gwella'r sector rhentu preifat, fod larwm mwg yn llai tebygol</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | <p><b>(Negyddol) -</b></p> | <p>Plant a phobl ifanc<br/>Pobl Hŷn<br/>Pobl ar incwm isel<br/>Economaidd anweithgar<br/>Di-waith/heb waith<br/>Pobl na allant weithio</p> |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                            |                                                                                                                                                                |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>o fod wedi'i osod mewn anheddau yn y sector rhentu preifat a bod nifer yr unigolion sy'n cael eu hanafu neu eu lladd o ganlyniad i dân yn uwch yn y sector hwn nag mewn sectorau eraill. Mae achosion o wenwyno gan garbon monocsid 50% yn fwy tebygol yn y sector hwn nag mewn sectorau eraill. Awgrymodd yr Asesiad hefyd fod corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod ansawdd aer gwael dan do, plwm, lleithder, plâu, tymereddau eithafol, gorlenwi, golau gwael ac asbestos yn effeithio ar iechyd corfforol.</p>                                                          |                            | <p>oherwydd salwch</p>                                                                                                                                         |
| <p><b>Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd</b></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                            | <p><b>Grwpiau Agored i Niwed/dosbarthiad</b></p>                                                                                                               |
| <p><b>(Cadarnhaol) +</b></p> <p>Mae tai cymdeithasol yn bwysig i'r bobl hynny na allant fanteisio ar farchnadoedd tai i brynu neu rentu eu cartref. Mae'n darparu cartrefi diogel a fforddiadwy o ansawdd da, sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles (corfforol a meddyliol). Mae cartref sefydlog hefyd yn angenrheidiol er mwyn i unigolion gymryd rhan y farchnad lafur ac, o gofio bod cyflogaeth yn benderfynydd iechyd allweddol, mae'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.</p> <p>Bydd diogelu tai cymdeithasol ar gyfer y rhai â'r angen mwyaf sy'n</p> | <p><b>(Negyddol) -</b></p> | <p>Plant a phobl ifanc<br/>Pobl Hŷn<br/>Pobl ar incwm isel<br/>Economaidd anweithgar<br/>Di-waith/heb waith<br/>Pobl na allant weithio<br/>oherwydd salwch</p> |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |  |  |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
| agored i niwed ac na all eu hanghenion gael eu diwallu gan y farchnad dai yn cael effaith gadarnhaol o ran mynd i'r afael â thlodi. Bydd plant yn cael budd yn ogystal â chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig y mae eu niferoedd yn uwch yn y sector rhentu cymdeithasol nag ar draws pob deiliadaeth. |  |  |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|

| <b>Cael gafael ar wasanaethau a'u hansawdd</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                     | <b>Grwpiau Agored i Niwed/dosbarthiad</b>                                                                                                      |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>(Cadarnhaol) +</b><br><br>Er ei fod yn ymwneud â Lloegr, mae adroddiad yr IPP, For Future Living innovative Approaches to Joining Up Housing and Health, a gyhoeddwyd yn 2014, yn awgrymu bod tai gwael yn costio o leiaf £1.3 biliwn y flwyddyn i'r GIG oherwydd peryglon yn y cartref a'r problemau meddygol sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni. Mae gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw a'r gallu i gael gafael arnynt yn hawdd yn nodwedd ar dai cymdeithasol. | <b>(Negyddol) -</b> | Plant a phobl ifanc<br>Pobl Hŷn<br>Pobl ar incwm isel<br>Economaidd anweithgar<br>Di-waith/heb waith<br>Pobl na allant weithio oherwydd salwch |
| <b>Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwy</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                     | <b>Grwpiau Agored i Niwed/dosbarthiad</b>                                                                                                      |
| <b>(Cadarnhaol) +</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | <b>(Negyddol) -</b> | Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol                                                                                                          |



## Argymhellion

A yw'r effeithiau a nodwyd uchod yn ddigon i gyfiawnhau asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar iechyd.

### Nac ydyn

Os nac ydyn, beth yw'r rhesymau dros beidio â chynnal asesiad?

Nod cyffredinol y cynigion yw diogelu tai cymdeithasol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae'r cysylltiadau rhwng tai gwael ac iechyd gwael bellach yn dra hysbys.

Os caiff unrhyw newidiadau sylweddol eu gwneud i'r cynnig, caiff y cofnod sgrinio hwn ei ailystyried.

A oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol o ganlyniad i'r broses Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yma?

### Nac oes

Os oes, rhowch fanylion (rhestrwch yr argymhellion a/neu'r mesurau lliniaru/gwella yma)

DD/G

Os oes angen cynnal Asesiad arall o'r Effaith ar Iechyd, nodwch y camau nesaf (E.e. Dyddiad ac amser y cyfarfod cwmpasu)

DD/G

A gynhaliwyd, neu a gynhelir, asesiadau effaith eraill? h.y. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd Neu a fydd yn rhan o un?

### Os ydych wedi rhoi ateb cadarnhaol, rhowch fanylion

Mae nifer o asesiadau effaith wedi'u cynnal a'u cyhoeddi.

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o'r Effaith Wledig
- Llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol

## ATODIAD 1 - Rhestr Wirio Grwpiau Agored i Niwed/Difreintiedig

(Noder mai canllaw yn unig yw'r rhestr hon ac nad yw'n gynhwysfawr)

Bydd y grwpiau targed a nodir fel rhai agored i niwed neu ddifreintiedig yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol a natur y cynnig ei hun. Y grwpiau mwyaf difreintiedig a/neu agored i niwed yw'r rheini sy'n dangos nifer o nodweddion, er enghraifft plant sy'n byw mewn tloedi. Felly, canllaw yn unig yw'r rhestr hon a gall fod yn briodol canolbwyntio ar grwpiau sydd â sawl anfantais.

### *Grwpiau cysylltiedig ag oedran\**

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn

### *Grwpiau cysylltiedig ag incwm*

- Pobl ar incwm isel
- Anweithgar yn economaidd
- Di-waith/heb waith
- Pobl na allant weithio oherwydd salwch

### *Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall*

- Pobl ag anabledau/anawsterau corfforol neu ddysgu
- Grwpiau ffoaduriaid
- Ceiswyr lloches
- Teithwyr
- Teuluoedd un rhiant
- Pobl Lesbïaidd, Hoyw a thrawsrywiol
- Grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig\*\*
- Grwpiau crefyddol\*\*

### *Grwpiau daearyddol*

- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd y gwyddys bod ganddynt ddangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig/gorboblog
- Pobl na allant gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau

Dylid hefyd asesu'r effaith ar oedolion yn gyffredinol. Hefyd, gall fod yn briodol asesu'r effaith ar ddynion a merched ar wahân.

\* Gellid nodi ystod oedran neu dargedu gwahanol grwpiau oedran am ystyriaeth arbennig.

\*\* Gall fod angen nodi'n benodol.

## **ATODIAD 2 – Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd a Lles**

(Canllaw yn unig yw'r rhestr hon ac nid yw'n hollgynhwysfawr)

### **1. Ffyrdd o Fyw**

Deiet

Gweithgarwch corfforol

Defnydd o alcohol, sigarêts, cyffuriau nas rhagnodir

Gweithgarwch rhywiol

Gweithgarwch arall sy'n peri risg

### **2. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd**

Trefniadaeth y teulu a rolau

Grym a dylanwad y dinesydd

Cymorth a rhwydweithiau cymdeithasol

Cymdogaeth

Ymdeimlad o berthyn

Balchder lleol

Rhaniadau yn y gymuned

Ynyswch cymdeithasol

Pwysau cyfoedion

Hunaniaeth gymunedol

Ethos diwylliannol ac ysbrydol

Hiliaeth

Mathau eraill o allgáu cymdeithasol

### **3. Amodau byw/ amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd**

Amgylchedd adeiledig

Dyluniad cymdogaeth

Tai

Amgylchedd mewnol

Sŵn

Ansawdd aer a dŵr

Atyniad ardal

Mannau gwyrdd

Diogelwch cymunedol

Arogl

Gwaredu gwastraff

Peryglon ar y ffordd

Perygl o anafiadau

Ansawdd a diogelwch mannau chwarae

### **4. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd**

Diweithdra

Incwm

Anweithgarwch economaidd

Math o gyflogaeth

Amodau yn y gweithle

### **5. Cael gafael ar wasanaethau a'u hansawdd**

Gwasanaethau meddygol

Gwasanaethau gofal eraill  
Cyngor ar yrfaoedd  
Siopau a gwasanaethau masnachol  
Amwynderau cyhoeddus  
Trafnidiaeth gan gynnwys parcio  
Addysg a hyfforddiant  
Technoleg gwybodaeth

6. Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwy  
Polisiâu'r Llywodraeth  
Cynnyrch Domestig Gros  
Datblygu economaidd  
Amrywiaeth fiolegol  
Hinsawdd

**Adnodd Sgrinio Prawfesur Gwledig**

|                                                    |                                                                  |
|----------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|
| <b>Teitl a diben y polisi (amlinelliad cryno):</b> | <b>Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)</b> |
| <b>Adran:</b>                                      | <b>AGC – Polisi Tai</b>                                          |
| <b>Dyddiad:</b>                                    | <b>Ionawr 2017</b>                                               |

**Adnodd Sgrinio Prawfesur Gwledig**

1. A yw eich polisi yn gymwys i unigolion, busnesau neu gymunedau yng nghefn gwlad?

**Os nad ydyw, nodwch y rheswm pam:**

Ydy

**Os ydyw:**

- a) A allai'r polisi gael effaith negyddol ar ardaloedd a chymunedau gwledig? Defnyddiwch y rhestr wirio prawfesur gwledig ar y Fewnrwyd.
- b) A allai'r polisi gae effaith gadarnhaol ar ardaloedd a chymunedau gwledig? Esboniwch sut:

**Cefndir**

Datblygwyd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) i ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Os caiff ei dderbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd yn sicrhau bod tai cymdeithasol ar gael i bobl na allant ddiwallu eu hanghenion tai drwy brynu cartref na thrwy ei rentu oddi wrth landlord preifat.

Bu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael, a gyflwynwyd y naill gan Ddeddf Tai 1985 a'r llall gan Ddeddf Tai 1996, yn nodwedd ar dai cymdeithasol ers tua 30 mlynedd. Gwnaethant ddeillio o bolisi'r Llywodraeth i gynyddu lefelau perchentyaeth, ymhlith pethau eraill. Yn ddarostyngedig i amodau ac eithriadau penodol, mae'r Hawl i Brynu yn rhoi hawl i denantiaid tai cymdeithasol brynu rhydd-ddeiliadaeth a lesddeiliadaeth eu cartref

Rhwng 1 Ebrill 1981 a 31 Mawrth 2016, gwerthwyd 136,000 o gartrefi Awdurdodau Lleol a 3,100 o gartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i denantiaid o dan ddeddfwriaeth Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael. Mae hyn yn cyfateb i 45% o'r stoc tai cymdeithasol yn 1981. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan gyrhaeddodd nifer y gwerthiannau ei huchafbwynt yn 2003-04, collwyd bron i 7,000 o gartrefi cymdeithasol o'r stoc tai cymdeithasol mewn un flwyddyn.

Yn fwy diweddar, oherwydd ffactorau economaidd a ffactorau eraill megis rheolau llymach i gael benthyciad ar gyfer morgais, bu gostyngiad yn nifer y cartrefi cymdeithasol a werthwyd. Yn ystod y cyfnod pum mlynedd mwyaf diweddar y mae data ar gael ar ei gyfer (Mawrth 2012-Mawrth 2016), collwyd 248 o gartrefi bob blwyddyn, ar gyfartaledd, o'r stoc tai rhent cymdeithasol. Yn 2013-14 bu cynnydd yn nifer y cartrefi a werthwyd o dan ddeddfwriaeth *Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael* am y tro cyntaf ers 2003-04 gyda 253 o gartrefi yn cael eu prynu, o gymharu â 170 yn 2012-13. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau gyda 286 o gartrefi yn cael eu gwerthu yn 2014-15 a 359 yn 2015-16.

Cymerodd Llywodraeth flaenorol Cymru a phartneriaid gamau i gynyddu'r stoc tai cymdeithasol. Rhwng 2011-12 a 2015-16 adeiladwyd cyfanswm o 11,508 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru. Mae hyn 15% yn uwch na'r targed a bennwyd ar gyfer y tymor diwethaf, sef 10,000. Mae gan y Llywodraeth bresennol darged i adeiladu 20,000 yn fwy o gartrefi fforddiadwy y tymor hwn. At hynny, sicrhawyd bod 10,498 o gartrefi gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto dros dymor y Llywodraeth flaenorol yn erbyn targed o 5,000.

Gan gydnabod effaith yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael a'r pwysau parhaus ar dai cymdeithasol, yn 2011 cyflwynwyd Mesur Tai (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn yn galluogi Awdurdod Lleol i wneud cais i Lywodraeth Cymru i atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn ei ardal. Hyd yma, mae tri Awdurdod Lleol – sef Sir Gaerfyrddin, Abertawe ac Ynys Môn – wedi gwneud cais llwyddiannus i roi'r gorau i'r Hawl i Brynu.

### **Yr effaith ar ardaloedd a chymunedau gwledig**

Mynegwyd pryderon ynghylch pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu prisio allan o'u cymunedau lleol gan renti a phrisiau prynu tai uchel. Cydnabyddir bod problemau penodol yn ymwneud â'r cyflenwad o dai mewn cymunedau gwledig lle y gall y cyflenwad cyfyngedig o eiddo olygu bod nifer yr anheddau sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol ac sydd ar gael i'w rhentu gan bobl leol ar incymau canolig yn gymharol fach.

Cydnabyddir hefyd ymhlith Cymdeithasau Tai a'r diwydiant datblygu ei bod yn fwy cymhleth ac yn ddrutach adeiladu cartrefi newydd yn y Parciau Cenedlaethol ac mewn ardaloedd gwledig lle y gall y broses o gael caniatâd cynllunio fod yn un gymhleth.

Mae prisiau tai yn aml yn uwch mewn ardaloedd gwledig ac weithiau mae cystadleuaeth am eiddo â pherchenogion ail gartrefi.

Mae diogelu tai fforddiadwy a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig yn ffordd bwysig o helpu cymunedau i barhau i fodoli a ffynnu.

## Asesiad Effaith - Llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru

|                                                    |                                                                  |
|----------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|
| <b>Teitl a diben y polisi (amlinelliad cryno):</b> | <b>Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)</b> |
| <b>Adran:</b>                                      | <b>AGC – Polisi Tai</b>                                          |
| <b>Dyddiad:</b>                                    | <b>Ionawr 2017</b>                                               |

### Cefndir

Datblygwyd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) i ddiogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Os caiff ei dderbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd yn sicrhau bod tai cymdeithasol ar gael i bobl na allant ddiwallu eu hanghenion tai drwy brynu cartref na thrwy ei rentu oddi wrth landlord preifat.

Bu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael, a gyflwynwyd y naill gan Ddeddf Tai 1985 a'r llall gan Ddeddf Tai 1996, yn nodwedd ar dai cymdeithasol ers tua 30 mlynedd. Gwnaethant ddeillio o bolisi'r Llywodraeth i gynyddu lefelau perchentyaeth, ymhlith pethau eraill. Yn ddarostyngedig i amodau ac eithriadau penodol, mae'r Hawl i Brynu yn rhoi hawl i denantiaid tai cymdeithasol brynu rhydd-ddeiliadaeth a lesddeiliadaeth eu cartref

Rhwng 1 Ebrill 1981 a 31 Mawrth 2016, gwerthwyd 136,000 o gartrefi Awdurdodau Lleol a 3,100 o gartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i denantiaid o dan ddeddfwriaeth Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael. Mae hyn yn cyfateb i 45% o'r stoc tai cymdeithasol yn 1981. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan gyrhaeddodd nifer y gwerthiannau ei huchafbwynt yn 2003-04, collwyd bron i 7,000 o gartrefi cymdeithasol o'r stoc tai cymdeithasol mewn un flwyddyn.

Yn fwy diweddar, oherwydd ffactorau economaidd a ffactorau eraill megis rheolau llymach i gael benthygiad ar gyfer morgais, bu gostyngiad yn nifer y cartrefi cymdeithasol a werthwyd. Yn ystod y cyfnod pum mlynedd mwyaf diweddar y mae data ar gael ar ei gyfer (Mawrth 2012-Mawrth 2016) collwyd 248 o gartrefi bob blwyddyn, ar gyfartaledd, o'r stoc tai rhent cymdeithasol. Yn 2013-14 bu cynnydd yn nifer y cartrefi a werthwyd o dan ddeddfwriaeth *Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael* am y tro cyntaf ers 2003-04 gyda 253 o gartrefi yn cael eu prynu, o gymharu â 170 yn 2012-13. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau gyda 286 o gartrefi yn cael eu gwerthu yn 2014-15 a 359 yn 2015-16.

Cymerodd Llywodraeth flaenorol Cymru a phartneriaid gamau i gynyddu'r stoc tai cymdeithasol. Rhwng 2011-12 a 2015-16 adeiladwyd cyfanswm o 11,508 o unedau



tai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru. Mae hyn 15% yn uwch na'r targed a bennwyd ar gyfer y tymor diwethaf, sef 10,000. Mae gan y Llywodraeth bresennol darged i adeiladu 20,000 yn fwy o gartrefi fforddiadwy y tymor hwn. At hynny, sicrhawyd bod 10,498 o gartrefi gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto dros dymor y Llywodraeth flaenorol yn erbyn targed o 5,000.

Gan gydnabod effaith yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael a'r pwysau parhaus ar dai cymdeithasol, yn 2011 cyflwynwyd Mesur Tai (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn yn galluogi Awdurdod Lleol i wneud cais i Lywodraeth Cymru i atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn ei ardal. Hyd yma, mae tri Awdurdod Lleol – sef Sir Gaerfyrddin, Abertawe ac Ynys Môn – wedi gwneud cais llwyddiannus i roi'r gorau i'r Hawl i Brynu.

Mae diogelu'r stoc tai cymdeithasol er mwyn sicrhau y caiff anghenion tai cenedlaethau'r dyfodol eu diwallu yn cyd-fynd yn agos ag egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd y Bil yn sicrhau bod y stoc tai cymdeithasol yn parhau'n hygyrch ac yn fforddiadwy i bobl y mae angen tai arnynt nawr ac yn y dyfodol.

## Bwriad Polisi

Mae diogelu'r stoc tai rhent cymdeithasol hanfodol rhag cael ei lleihau ymhellach yn seiliedig ar egwyddor datblygu cynaliadwy o geisio sicrhau y caiff yr anghenion presennol eu diwallu yn y ffordd orau posibl heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion llety. Mae diddymu hawliau nifer cymharol fach o bobl i brynu eu cartrefi o dan yr *Hawl i Brynu* yn cael ei gydbwyso â'r ymrwymiad i wella lles y mwyafrif, gan gynnwys llawer o bobl sy'n agored i niwed, na allent fel arall fforddio cartref.

Mae tai cymdeithasol yn elfen hanfodol o'r system dai gyffredinol, gan eu bod yn cynnig opsiwn hanfodol i bobl na allant gael cartref i'w brynu na'i rentu drwy'r farchnad dai breifat. Mae'r rhain yn cynnwys y bobl ddifreintiedig ac agored i niwed, cartrefi incwm isel ac eraill na allant, am sawl rheswm, fforddio prynu cartref.

Y bwriad sydd wrth wraidd y cynigion yn y Bil yw diogelu'r cyflenwad o dai cymdeithasol rhag cael ei leihau ymhellach pan fyddwn yn wynebu galw mawr am dai cymdeithasol ar yr un pryd â chyflenwad cyfyngedig. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â thystiolaeth gan Sefydliad Joseph Rowntree, a ddisgrifir yn fanylach isod. Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r defnydd cadarnhaol o bolisi tai cymdeithasol i fynd i'r afael â thlodi. Bydd diogelu'r stoc tai cymdeithasol yn helpu i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu cael cartref y gallant ei fforddio. Mae cartref diogel a fforddiadwy wrth wraidd bywyd teuluol sefydlog. Mae hefyd yn darparu'r sail ar gyfer cyfranogi yn y farchnad lafur, sy'n helpu i fynd i'r afael â 'bod heb waith', gwella sgiliau a gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae safon ein stoc tai cymdeithasol yn helpu i sicrhau amodau sy'n hyrwyddo datblygiad plant sydd yn ei dro yn cyfrannu at wella cyrhaeddiad addysgol. Mae llety o safon dda hefyd yn benderfynydd iechyd allweddol ac yn ffactor wrth leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mynegwyd pryderon mewn rhai rhannau o Gymru ynghylch y ffaith ei bod yn anodd i rai pobl mewn cymunedau Cymraeg fforddio cartref yn yr ardal leol oherwydd prisiau tai uchel. Awgrymir bod hyn yn niweidio'r Gymraeg. Mae tai cymdeithasol yn darparu cartrefi fforddiadwy i bobl leol yn eu cymunedau ac maent yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig. Yn ychwanegol at adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy, mae diogelu'r tai cymdeithasol presennol mewn cymunedau lleol yn helpu i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i bobl leol. Er enghraifft, mae rhai cymunedau Cymraeg yn y gogledd yn gweithio gyda'u galluogydd tai gwledig i ddatblygu mwy o dai fforddiadwy. Mae diogelu tai fforddiadwy a chymdeithasol mewn ardaloedd Cymraeg a chyfuno hyn ag ymagwedd gadarn tuag at gysylltiad lleol yn ffordd bwysig o helpu cymunedau Cymraeg yng nghefn gwlad i barhau i fodoli a ffynnu.

Mae diddymu'r *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael* yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar iechydd. Mae cartref diogel, fforddiadwy yn dod â manteision sylweddol i iechydd, lles ac ansawdd bywyd pobl yn fwy cyffredinol. Cydnabyddir bod eiddo rhent preifat yn aml mewn cyflwr ffisegol gwaeth a bod ganddynt system gwresogi a mesurau arbed ynni llai effeithlon na thai cymdeithasol. Gall tai gwael gael effaith negyddol ar ganlyniadau iechydd, yn enwedig ar gyfer plant.

Noder: Dylid darllen yr asesiad hwn ar y cyd â'r asesiad a wnaed o'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn erbyn nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

|                            |                                                             |
|----------------------------|-------------------------------------------------------------|
| Teitl / Darn o waith:      | Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawliau Cysylltiedig (Cymru) |
| Adran:                     | Polisi Tai                                                  |
| Dyddiad:                   | Ionawr 2017                                                 |
| Rhif Cyfeirnod yr Asesiad: | 16/12/01                                                    |

|                                                                                                                                                            |                                               |                          |                          |                          |                          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
| <b>Y Math o Raglen/Prosiect</b>                                                                                                                            |                                               |                          |                          |                          |                          |
| <input type="checkbox"/> Polisi                                                                                                                            | <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen  |                          |                          |                          |                          |
| <input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth                                                                                                           | <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad |                          |                          |                          |                          |
| <input type="checkbox"/> Grant                                                                                                                             | <input type="checkbox"/> Gwasanaethau         |                          |                          |                          |                          |
| <input type="checkbox"/> Newid busnes                                                                                                                      | <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau  |                          |                          |                          |                          |
| <input type="checkbox"/> Seilwaith                                                                                                                         |                                               |                          |                          |                          |                          |
| <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf                                                                                                                 |                                               |                          |                          |                          |                          |
| <input type="checkbox"/> TGCh                                                                                                                              |                                               |                          |                          |                          |                          |
| <input type="checkbox"/> Arall (nodwch isod)                                                                                                               |                                               |                          |                          |                          |                          |
| <b>Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?</b><br>Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau). |                                               |                          |                          |                          |                          |
| O dan £25k                                                                                                                                                 | £25k - £49k                                   | £50k - £249K             | £250K - £1m              | Dros £1m                 |                          |
| X <input type="checkbox"/>                                                                                                                                 | <input type="checkbox"/>                      | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |                          |
| <b>O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?</b>                                                                    |                                               |                          |                          |                          |                          |
| <b>Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?</b>                                                                                                  |                                               |                          |                          |                          |                          |
| Hyd at 1 flwyddyn                                                                                                                                          | Hyd at 2 flynedd                              | Hyd at 5 mlynedd         | Hyd at 10 mlynedd        | Dros 10 mlynedd          | Heb ei nodi              |
| <input type="checkbox"/>                                                                                                                                   | X <input type="checkbox"/>                    | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| <b>Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:</b>                                                                                            |                                               |                          |                          |                          |                          |
| Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawliau Cysylltiedig (Cymru)                                                                                                |                                               |                          |                          |                          |                          |
| <b>CAM 1: CYNLLUNIO</b>                                                                                                                                    |                                               |                          |                          |                          |                          |

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi?**

**Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Cafodd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawliau Cysylltiedig (Cymru) ei ddatblygu i ddiogelu'r stoc o dai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol i sicrhau bod y stoc ar gael i bobl sydd ei hangen ac nad ydynt yn gallu cael llety drwy fod yn berchen ar gartref neu drwy'r sector rhentu preifat.

Dros y 30 mlynedd ddiwethaf, mae'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael wedi caniatáu i nifer o denantiaid mewn tai cymdeithasol brynu eu cartref am bris gostyngol. Er bod hynny wedi cynyddu nifer y bobl sy'n berchen ar eu cartref, mae wedi lleihau maint y stoc o dai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu gan bobl y mae angen tai arnynt.

Bwriad y Bil yw diogelu'r stoc o dai cymdeithasol rhag lleihau ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod tai cymdeithasol yn elfen hollbwysig o'r system dai gyfan, gan gynnig cartrefi diogel a fforddiadwy i bobl nad ydynt yn gallu prynu na rhentu cartref drwy'r farchnad dai.

Mae'r cynnig i ddiogelu'r stoc o dai cymdeithasol yn cyd-fynd ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd y Bil yn sicrhau y bydd y cyflenwad o dai cymdeithasol yn parhau i fod ar gael, ac y bydd y bobl y mae angen tai arnynt yn gallu eu fforddio, heddiw ac yn y dyfodol.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**

**a**

**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Mae opsiynau'r polisi wedi'u disgrifio'n llawn yn y Memorandwm Esboniadol sydd wedi'i gyhoeddi ar y cyd â'r Bil. Os nad yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu, hynny yw, os nad yw'r Bil yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol lle nad yw'r *Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael* wedi'u hatal dros dro, bydd rhywfaint o dai rhent cymdeithasol yn parhau i gael eu gwerthu bob blwyddyn, sy'n golygu na fydd y tai hynny ar gael yn y tymor hir i helpu i ddiwallu anghenion pobl o ran tai.

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?**

O dan y pennawd "Cymunedau", mae *iaith fyw: iaith byw* yn nodi "Bydd yr heriau penodol yn amrywio o ardal i ardal ond maent yn debygol o gynnwys materion fel y tai fforddiadwy sydd ar gael...Mae'n rhaid i'r gwaith adnewyddu ieithyddol fynd law yn llaw â'r gwaith o wella seilwaith cymdeithasol ac economaidd yr ardaloedd hyn er mwyn helpu i sicrhau bod...rhagor o dai fforddiadwy ar gael fel y gall pobl aros yn eu cymunedau." Os yw'n cael ei phasio gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn diogelu'r stoc o dai cymdeithasol ym mhob rhan o Gymru.

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?</b></p> <p>h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?</p> <p>Mynegwyd pryderon mewn rhai rhannau o Gymru ei bod yn anodd i rai pobl mewn cymunedau Cymraeg fforddio prynu cartref yn lleol oherwydd prisiau uchel y tai. Awgrymir bod hynny'n cael effaith andwyol ar yr iaith. Mae tai cymdeithasol yn darparu cartrefi fforddiadwy i bobl leol yn eu cymunedau, rhywbeth sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal ag adeiladu rhagor o gartrefi fforddiadwy, mae diogelu'r cyflenwad presennol o dai cymdeithasol mewn cymunedau lleol yn helpu i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael yn y cymunedau hynny. Mae rhai cymunedau Cymraeg eu hiaith yn y Gogledd er enghraifft yn gweithio gyda'u swyddog galluogi tai gwledig i ddatblygu mwy o dai fforddiadwy. Mae diogelu tai cymdeithasol a thai fforddiadwy mewn ardaloedd Cymraeg, ochr yn ochr â bod yn drylwyr wrth sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer pobl sydd â chysylltiadau lleol, yn ffordd bwysig o helpu cymunedau gwledig Cymraeg i barhau i fodoli a ffynnu.</p> |
| <p><b>Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?</b></p> <p>Tenantiaid mewn tai cymdeithasol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, yn ogystal â'r awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai eu hunain.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| <p><b>Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.</b><br/>(Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)</p> <p>Nid yw'n berthnasol</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| <p>Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?<br/>e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestru rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?</p> <p>Nid yw'n berthnasol</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| <p><b>CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU</b></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| <p><b><u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u></b><br/><b>Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.</b></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| <p><b>Effeithiau cadarnhaol:</b></p> <p>Nid yw'n berthnasol</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                         |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Effeithiau negyddol:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                         |
| Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol.                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                         |
| <b>Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?</b>                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                         |
| Nid yw'n berthnasol                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                         |
| <b>Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:</b>                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                         |
| Nid yw'n berthnasol                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                         |
| <b>Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?</b>                                                                                                                                                                                                                       | Cadarnhaol: X <input type="checkbox"/><br>Negyddol: <input type="checkbox"/><br>Niwtral: <input type="checkbox"/><br>Anhysbys: <input type="checkbox"/> |
| <b>Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                           | 1. Dim newid sylweddol<br>X <input type="checkbox"/>                                                                                                    |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau<br><input type="checkbox"/>                                                                                |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru <input type="checkbox"/>                                                                                     |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno<br><input type="checkbox"/>                                                                              |
| <b>Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:</b><br>Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg?<br>Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol: |                                                                                                                                                         |
| <b>Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?</b>                                                                                                                          |                                                                                                                                                         |
| Nid yw'n berthnasol                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                         |
| <b>CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO</b>                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                         |
| <b>Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?</b>                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                         |
| Nid yw'n berthnasol                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                         |

|                                                                                                     |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?</b>                         |
| Nid yw'n berthnasol                                                                                 |
| <b>Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?</b> |
| Nid yw'n berthnasol                                                                                 |
| <b>Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg</b>    |
| Dim                                                                                                 |

#### 4. Datganiad

|                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Arweinydd Polisi:</b><br><br><b><i>*Dileer fel y bo'n briodol:</i></b><br><br><b>Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.</b> |
| Adran: Polisi Tai                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| Dyddiad(au): 22 Tach 2016                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Dyddiadau Adolygu:<br><br>Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth, ac yn achlysurol pan fydd y ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith o 2018 ymlaen.                                                                                |